






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Effaith mesurau Ewropeaidd i leddfu cyfyngiadau symud ar werth R

Crynodeb o'r Cyngor

8 Mehefin 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Effaith mesurau Ewropeaidd i leddfu cyfyngiadau symud ar werthoedd R

Crynodeb o'r Cyngor

08 Mehefin 2020

Crynodeb:

1. Roedd Cymru a'r DU y tu ôl i lawer o wledydd yn Ewrop yn natblygiad cynnar pandemig COVID-19, gydag amcangyfrifon cychwynnol o oedi o 2 i 3 wythnos yn lledaeniad cyflym y clefyd.
2. Cafodd gofynion o ran cyfyngiadau symud eu gorfodi 2 i 3 wythnos ar ôl llawer o wledydd Ewrop.
3. O ganlyniad, dim ond ar ôl ystyried y bwlch amser o 2 i 3 wythnos y mae'r gwersi a ddysgir o wledydd Ewropeaidd yn gymwys.
4. Dangosodd nifer o wledydd yn Ewrop ostyngiad sydyn yn y gyfradd heintio CV19 ar ôl i gyfyngiadau symud gael eu cyflwyno.
5. Ni ddangosodd y DU'r un gostyngiad sydyn yn y gyfradd heintio ar ôl cyflwyno cyfyngiadau symud ac mae wedi cymryd mwy o amser i'r DU ddangos â lefelau haint sy'n nodweddiadol o sawl gwlad Ewropeaidd.
6. O ganlyniad, gellid dod i'r casgliad nad oedd mesurau'r DU mor llwyddiannus â mesurau nifer o wledydd eraill yn Ewrop, fel y gwelir ymhellach gan y nifer uwch o farwolaethau yn y DU nag unrhyw wlad arall yn Ewrop sy'n debyg o ran maint ei phoblogaeth (Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal).
7. Mae'n debygol bod y nifer o bobl yn y DU sydd wedi dod i gysylltiad â'r feirws CV19 yn uwch nag mewn gwledydd Ewropeaidd eraill o faint cymharol o ran eu poblogaeth (Ffrainc, yr Almaen)
8. Nid yw'r llacio ar y cyfyngiadau symud mewn llawer o wledydd Ewrop wedi arwain at gynnydd cyflym mewn gwerthoedd R fel y gwelir wrth y gostyngiad yn y gyfradd heintio yn yr Almaen, Ffrainc a gwledydd eraill.
9. Yn y mwyafrif o wledydd, mae'r gwerth R wedi disgyn i 'linell wastad' sef 1 neu ychydig yn is nag 1.
10. Mae rhai gwledydd Ewropeaidd (e.e. Ffrainc) yn dangos arwyddion cryf y gallai'r gwerth R fod yn codi yn y cyfnod amser diweddaraf (hyd at ddechrau Mehefin) o ganlyniad i lacio ar fesurau, ond mae angen bod yn ofalus oherwydd bod y gyfradd heintio yn fach iawn ac am y bydd 'hap-sŵn' yn tarfu ar werth R.
11. Mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r arwyddion o gynnydd mewn gwerthoedd R mewn rhai gwledydd yn deillio o hap-amrywiad neu'n arwydd o gynnydd gwirioneddol a pharhaus.
12. Mae'r amcangyfrif wedi'i fodelu o werthoedd R yn llusgo ryw 2 i 3 wythnos ar ôl amser real oherwydd yr oedi o'r pwynt trosglwyddo i'r pwynt y cafodd yr haint ei gadarnhau.


13. Os oes mwy nag un cam gweithredu ar gyfer llacio cyfyngiadau'n cael ei gymryd ar yr un pryd, mae'n anodd iawn priodoli unrhyw newid andwyol yn y gwerth R i unrhyw un weithred a gymerwyd.
14. Casgliad: wrth lacio cyfyngiadau'r DU, mae angen bod yn ofalus wrth gymharu â gwledydd Ewropeaidd eraill, felly byddai dull gofalus o lacio mesurau ymhellach yn ddoeth.

Data Gwledydd Unigol

At ddibenion cymharu, dangosir yr achosion newydd fesul diwrnod a'r gwerthoedd R a gyfrifwyd ar gyfer rhai gwledydd Ewropeaidd isod.

Er mwyn dangos effeithiau llacio camau gweithredu ar R, dewiswyd yr Almaen fel astudiaeth achos fanylach. (Nodyn: Mae mân wahaniaethau manwl bach yn y gwerthoedd R a ddarlunnir isod yn y ddau graff ar gyfer yr Almaen oherwydd bod pob un yn dod o fodel gwerth R gwahanol).


Yr Almaen – astudiaeth achos fanylach




Dangosir y gwerth R isod yn fanylach gyda chamau gweithredu cyfatebol ar gyfyngiadau symud a rhai mesurau llacio. Mae'r graff hwn yn dangos bod y gwerth R wedi gostwng o werth ymhell uwchlaw 1 (yn yr ystod oddeutu 2.5 i 3.2) ar ddechrau'r pandemig i werth llai nag un. Dylid nodi bod y gwerth R, er yn llai nag 1, yn parhau yn sefydlog dros amser (yn amrywio rhwng tua 0.75 i 0.9). Yr hyn sy'n gysur yw nad oes llawer o awgrym y bydd yn codi'n sylweddol mewn modd cyson. Daw'r data o Sefydliad

Robert Koch ac fe'i darluniwyd yn y modd isod gan 'Policy and International Health, WHO Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being, Public Health Wales', gyda diolch.

COVID-19: point estimation of the 7-day R value, Germany, 6th March to 13th May 2020




Ffrainc




Yr Eidal


Dyddiad pryd y dechreuwyd llacio'r cyfyngiadau: 4 Mai 2020

**Sbaen**

Dyddiad pryd y dechreuwyd llacio'r cyfyngiadau: 13 Ebrill 2020



Y Deyrnas Unedig – Cenedlaethol ac Is-genedlaethol



Dyddiad pryd y dechreuwyd llacio'r cyfyngiadau: 11 Mai 2020

Cymru

